OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2004 Rhif 1015 (Cy.112) (C.45)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 13) (Cymru) 2004

Wedi'i wneud - - 31 Mawrth 2004

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 118(5) a (6) a 122 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**).

Enwi, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 13) (Cymru) 2004.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, mae cyfeiriad at adran yn gyfeiriad at adran yn Neddf Safonau Gofal 2000.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

Y Diwrnod Penodedig

2. 1 Ebrill 2004 yw'r diwrnod penodedig i adrannau 8, 9(2) a (3), 10(2) i (7), 11 i 15, 17 i 21, 24, 26 i 32, 36 a 37 ddod i rym i'r graddau y mae'u darpariaethau yn ymwneud ag asiantaethau gofal cartref ac nad ydynt eisoes mewn grym.

(**1**) 2000 p.14. Mae'r pŵer yn arferadwy gan y Gweinidog priodol. Diffinnir "appropriate Minister" yn adran 121(1). Ei ystyr mewn perthynas â Chymru yw "the Assembly". Mae adran 5(b) yn diffinio "the Assembly" fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**2**).

D. Elis-Thomas
31 Mawrth 2004 Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**2**) 1998 p.38.

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r gorchymyn hwn yn penodi 1 Ebrill 2004 fel y diwrnod y daw darpariaethau penodol o Ran II o Ddeddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf") i rym at ddibenion rheoliadau a wnaed mewn perthynas ag asiantaethau gofal cartref. Effaith hyn fydd dwyn yr asiantaethau hyn o fewn fframwaith reoliadol Deddf Safonau Gofal 2000.

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae darpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 y gwnaed cofnod mewn perthynas â hwy yn y Tabl isod wedi cael eu dwyn i rym mewn perthynas â Chymru ar y dyddiad a bennir gyferbyn â'r cofnod amdanynt. Cafodd y darpariaethau hynny y dilynir cofnod amdanynt yn y Tabl gan y llythyren a nodir isod eu dwyn i rym gan yr offeryn statudol a ddangosir gyferbyn â'r llythyren honno:

(a) O.S. 2000/2992 (Cy.192) (C.93)

(b) O.S. 2001/139 (Cy.5) (C.7)

(c) O.S. 2001/2190 (Cy.152) (C.70)

(ch) O.S. 2001/2354 (Cy.192) (C.80)

(d) O.S. 2001/2504 (Cy.205) (C.82)

(dd) O.S. 2001/2538 (Cy.213) (C.83)

(e) O.S. 2001/2782 (Cy.235) (C.92)

(f) O.S. 2002/920 (Cy.108) (C.24)

(ff) O.S. 2002/1175 (Cy.123) (C.31)

(g) O.S. 2003/152 (Cy.22) (C.8)

(ng) O.S. 2003/501 (Cy.70)(C.27)

(h) O.S. 2003/2528 (Cy.243) (C.95).

Y ddarpariaeth	*Y Dyddiad Cychwyn*
Adrannau 1 i 5 (**c**)	1 Gorffennaf 2001
Adran 7(7) (**c**)	1 Gorffennaf 2001
Adran 8 (yn rhannol) (**c**)	1 Gorffennaf 2001
Adran 8 (yn rhannol) (**f**)	1 Ebrill 2002
Adran 8 (yn rhannol) (**g**)	30 Ionawr 2003
Adran 8 (yn rhannol) (**h**)	2 Hydref 2003
Adran 9(1) and (2) (yn rhannol) (**g**)	30 Ionawr 2003
Adran 9(1) a (2) (yn rhannol) (**h**)	2 Hydref 2003
Adran 9(3) i (5) (**c**)	1 Gorffennaf 2001